**Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd**
**Dydd Mercher 30 Tachwedd 2022, 10.30am-12.30pm**
**trwy Microsoft Teams**

| | |
|---|---|
| <u>**Yn Bresennol**</u> | |
| | |
| **Aelodau'r Bwrdd:** | |
| Y Cynghorydd Huw Thomas **(Cadeirydd)** | Arweinydd, Cyngor Caerdydd (CC) |
| Charles Janczewski **(Is-gadeirydd)** | Cadeirydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIP Caerdydd a'r Fro) |
| Suzanne Rankin | Prif Weithredwr, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Fiona Kinghorn | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Abigail Harris | Cyfarwyddwr Cynllunio, BIP Caerdydd a'r Fro |
| Michael Evans | Pennaeth Gweithrediadau Canol y De, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) |
| | |
| Matt Wyatt | Rheolwr Grŵp, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) |
| Danny Richards | Prif Uwch-arolygydd, Heddlu De Cymru |
| Eirian Evans | Pennaeth yr UCP, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (GPC) |
| Sheila Hendrickson-Brown | Prif Swyddog Gweithredol, C3SC |
| Amelia John | Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Tai, Llywodraeth Cymru |
| Daniel Jones | Cyfarwyddwr yr Uned Atal Trais, Heddlu De Cymru |
| | |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| Huw Jakeway | Prif Swyddog Tân, GTADC |
| Gareth O'Shea | Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau De Cymru, CNC |
| Paul Orders | Prif Weithredwr, CC |
| Alun Michael | Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHT) De Cymru |
| Sarah McGill | Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau, CC |
| | |
| **Hefyd yn bresennol:** | |
| Gareth Newell | Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau |
| Dylan Owen | Rheolwr Gweithredol Polisi a Gwelliant, CC |
| Abigail Taylor | Swyddog Cynllunio a Gwella, CC |
| Sian Sanders | Pennaeth Cydlyniant a Diogelwch Cymunedol, CC |
| Andrew Gregory | Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, CC |
| Gareth Harcombe | Rheolwr Gweithredol Ynni a Chynaliadwyedd, CC |
| Charlotte Amos | Uwch Swyddog Polisi, CC |
| Lee Patterson | Cydlynydd Dinas sy'n Dda i Blant, CC |
| Suzanne Scarlett | Rheolwr Perfformiad a Phartneriaethau, CC |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 1. | **Croeso / Ymddiheuriadau**<br><br>Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a nododd yr ymddiheuriadau fel yr uchod. | |
| 2. | **Cofnodion a Chamau Gweithredu**<br><br>Derbyniodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2022. Tynnodd Eirian Evans sylw at anghywirdeb o ran teitl ei swydd.<br><br>**CYTUNWYD:**<br>• Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2022 eu cymeradwyo, gyda mân ddiwygiad i deitl swydd Aelod o'r Bwrdd.<br><br>**Materion yn Codi:**<br><br>Nododd y Cadeirydd fod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau, ac eithrio'r canlynol, a fydd yn cael eu cwblhau cyn bo hir:<br><br>• Bydd canfyddiadau Arolwg Holi Caerdydd – yn ogystal ag arolygon perthnasol eraill sy'n cael eu cynnal – yn cael eu hadrodd i'r BGC ym mis Chwefror 2023. Bydd hyn yn sicrhau bod Cynllun Lles a blaenoriaethau newydd y BGC yn cyd-fynd â materion a nodwyd gan ddinasyddion.<br>• Polisi Deall Maethu Cyngor Caerdydd i gael ei rannu ag Aelodau’r BGC i’w ystyried.<br>• Yng nghyfarfod diwethaf y BGC, cytunwyd y bydd pob sefydliad partner yn gweithredu trefniadau cyfeirio – at gymorth ar gyfer yr argyfwng costau byw – i breswylwyr. Gofynnwyd i Aelodau’r BGC sicrhau bod eu Swyddogion Cyfathrebu yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, er mwyn iddynt allu ei hyrwyddo'n briodol. | |
| 3. | **Trefniadau Llywodraethu Partneriaethau**<br><br>Rhoddodd Gareth Newell y wybodaeth ddiweddaraf i’r BGC am y gwaith a wnaed i adolygu trefniadau llywodraethu partneriaethau. Nod yr adolygiad yw sicrhau bod y trefniadau llywodraethu’n cael eu sefydlu er mwyn cyflawni blaenoriaethau newydd y BGC fel yr amlinellir yn y Cynllun Lles drafft.<br><br>Tynnwyd sylw at ganfyddiadau'r adolygiad yn y cyflwyniad. Ceir crynodeb isod o'r rhain.<br>• Mae gweithio mewn partneriaeth wedi gweithio'n dda | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | • Mae angen trefniadau partneriaeth effeithiol yn fwy nag erioed i ddatrys problemau cymhleth mewn gwasanaethau cyhoeddus.<br>• Mae ymrwymiad gan arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus i gydweithio.<br>• Mae'r sefyllfa bresennol yn gymhleth, gan arwain at ddyblygu llywodraethu a gweithgarwch.<br>• Mae angen canolbwyntio ar "faterion systemau" na ellir mynd i'r afael â nhw ond trwy weithio mewn partneriaeth.<br>• Nod y trefniadau partneriaeth yw canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion a nodir yn y Cynllun Lles/Cynllun Ardal.<br>• Nodwyd y canlynol fel blaenoriaethau i'r BGC<br>- Yr Argyfwng Hinsawdd<br>- Asedau a Seilwaith<br>- Anghydraddoldeb Iechyd<br>- Diogelwch a Diogelu Cymunedau<br>- Gorchwyl a Gorffen/ymateb i faterion<br><br>Canmolwyd y tîm gan Fiona Kinghorn am gwblhau darn cymhleth o waith a nododd hi fod angen ystyried y darn comisiynu – Bwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd a'r Fro – ymhellach gan nad yw'n perthyn yn iawn i'r maes diogelwch cymunedol.<br><br>Cytunodd Amelia John y byddai'r cyflwyniad yn cael ei rannu â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru er mwyn tynnu sylw at gymhlethdod y sefyllfa.<br><br>Ychwanegodd Charles Janczewski y byddai'n awyddus sicrhau nad yw'r BGC yn derbyn gwybodaeth yn unig, ond ei fod hefyd yn edrych ar ganlyniadau a lle mae modd ychwanegu gwerth.<br><br>Nododd y Cadeirydd fod y strwythur wedi'i drafod gyda'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu.<br><br>Ychwanegodd Abigail Harris ei chefnogaeth i gadw'r themâu.<br><br>Tynnodd Sheila Hendrickson-Brown sylw at yr angen i ddeall y rôl ar gyfer y trydydd sector.<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r mynychwyr am eu cyfraniadau gan dynnu sylw at yr angen i ystyried sut mae'r BGC a'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio gyda'i gilydd, yr angen am sicrwydd ynghylch cyflawni newid trwy ddata effeithiol, a'r angen i'r BGC bennu blaenoriaethau strategol da.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br>• Aelodau'r Bwrdd i gyflwyno unrhyw sylwadau pellach ynghylch trefniadau llywodraethu partneriaethau i Gareth Newell. | **PAWB** |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| 4. | **Diweddariad ar Gaerdydd Un Blaned**<br><br>Cafodd aelodau'r BGC gyflwyniad yn rhoi diweddariad ar y Rhaglen Un Blaned a gwaith y Bwrdd Argyfwng Hinsawdd (BAH). Tynnodd y cyflwyniad sylw at y canlynol:<br>• Mandad a phwrpas y BAH<br>• Adborth gan Aelodau'r BAH - beth sydd wedi mynd yn dda/gellid ei wella.<br>• Diweddariadau gan grwpiau allweddol gan gynnwys fflyd, ystadau<br>• Pwysigrwydd newid ymddygiad<br>• Meysydd ar gyfer cydweithio<br><br>Gofynnwyd i Aelodau'r BGC:<br>• Gadarnhau diddordeb yn y prosiectau awgrymedig<br>• Enwebu Hyrwyddwr Lefel Cyfarwyddwr a chyfranogwyr allweddol<br>• Sicrhau aliniad sefydliadol clir o ran prosesau gwneud penderfyniadau a llywodraethu lefel uwch<br>• Ymrwymo i ddarparu "Cronfa frwydro" (£20k y flwyddyn?) ar gyfer Cydlynydd a ariennir ac ymchwil pwrpasol lle bo angen<br>• Cytuno i osod targedau prosiect a sefydliadol/partneriaeth clir<br>• Cytuno i gymryd rhan yng Nghonfensiwn Hinsawdd Caerdydd sydd ar ddod<br><br>Diolchodd Michael Evans i'r Tîm Un Blaned am yr egni a ddaeth ag ef i'r Bwrdd gan dynnu sylw at yr angen i sicrhau bod y penderfyniadau anodd sydd eu hangen yn cael eu gwneud.<br><br>Gwnaeth y Cadeirydd gydnabod bod angen ymdrech ar y cyd, gan fod rhai cynigion presennol dim ond yn effeithio ar yr ymylon. Ar ben hynny, bydd rhai o'r cynigion sy'n cael effaith fwy yn gofyn i bartneriaid wneud penderfyniadau anodd.<br><br>Ychwanegodd Suzanne Rankin ei chefnogaeth o ran Abigail Harris yn gweithredu fel cyfarwyddwr arweiniol y BIP a nododd y byddai angen ystyried ymhellach y penderfyniad o ran cyfraniad ariannol ar adeg arall o ystyried pwysau cyllidebol ar draws y bwrdd.<br><br>Tynnodd Amelia John sylw at y ffaith bod cronfa frwydro wedi gwneud gwahaniaeth enfawr yn y modd y mae amcanion Llywodraeth Cymru'n cael eu cyflawni.<br><br>Dywedodd Fiona Kinghorn y gallai adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ar gyfer 2023 ganolbwyntio ar y pwnc hwn.<br><br>**CYTUNWYD:**<br>• Cytunwyd ar y ceisiadau a nodwyd uchod gydag angen am fwy o drafod a manylion o ran y gronfa frwydro. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | • I ystyried canolbwyntio adroddiad Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd ar gyfer y flwyddyn nesaf ar yr argyfwng hinsawdd. | |
| **5.** | **Tasglu Cydraddoldeb Hiliol**<br><br>Cafodd y BGC gyflwyniad mewn perthynas â Thasglu Cydraddoldeb Hiliol Caerdydd. Tynnodd y cyflwyniad sylw at y canlynol:<br><br>• Trosolwg o'r Tasglu<br>• Blaenoriaethau'r tasglu<br>• Data cyfrifiad o 2011/2021 yn nodi cynnydd o 6% mewn lleiafrif ethnig.<br>• Ymateb y Tasglu Cydraddoldeb Hiliol.<br>• Datblygu Rhwydwaith Cydraddoldeb BGC Caerdydd, gyda Sheila Hendrickson Brown yn Gadeirydd.<br>• Y camau nesaf<br><br>**CYTUNWYD:**<br><br>• Cytunwyd i sefydlu Rhwydwaith Cydraddoldeb BGC Caerdydd | |
| **6.** | **Diweddariad ar Ddinas Sy'n Dda i Blant**<br><br>Cafodd y BGC gyflwyniad yn rhoi diweddariad ar Strategaeth Caerdydd sy'n Dda i Blant. Roedd y cyflwyniad yn cynnwys:<br>• Amserlen y ffordd i gydnabyddiaeth<br>• Y cynnydd mesuradwy yn y cyfnod cyflawni<br>• Manylion Ffordd i Gydnabyddiaeth Caerdydd<br>• Manylion y Pwyllgor Gwerthuso Plant a Phobl Ifanc<br>• Y canlyniad asesu disgwyliedig ym mis Chwefror 2023<br><br>Cyflwynodd Lee Patterson gynnig i'r BGC gynnal digwyddiad blynyddol, diwrnod o hyd a fyddai'n galluogi plant a phobl ifanc i rannu eu blaenoriaethau gyda'r BGC, yng nghyd-destun Cynllun Lles y BGC. Byddai rhan gyntaf y digwyddiad yn dod â chynrychiolwyr ifanc o bob rhan o wasanaethau cyhoeddus ynghyd ar gyfer cyfres o weithdai, gydag aelodau'r BGC yn ymuno â'r bobl ifanc ar gyfer ail hanner y digwyddiad, i drafod canfyddiadau sesiwn y bore ac i gymryd rhan mewn sesiwn deialog strwythuredig.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd a oedd cynrychiolaeth eang i sicrhau bod lleisiau ar y cyrion yn cael eu clywed. Cadarnhaodd Lee Patterson y cysylltwyd â phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, â phrofiad o loches, ac ag anghenion dysgu ychwanegol. Cynigiodd Sheila Hendrickson-Brown ei chymorth i gyrraedd y bobl ifanc hynny a allai fod ar y cyrion. | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | **CYTUNWYD:**<br>• I BGC Caerdydd ymrwymo i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, gan ddechrau gyda digwyddiad i gyd-fynd â chyfarfod arfaethedig y bwrdd yn hydref 2023 ac yn flynyddol wedi hynny.<br>• I BGC Caerdydd ymrwymo i ystyried camau gweithredu priodol yn seiliedig ar farn plant a phobl ifanc. | |
| **7**. | **Diweddariad ar Ddiogelwch Cymunedol**<br><br>Rhoddodd Sian Sanders y diweddariad canlynol:<br><br>• Mae'r Ddyletswydd Trais Difrifol wedi'i gosod ar gyfer 30 Ionawr 2023. Mae ein hymateb i'r Ddyletswydd eisoes wedi dechrau, gyda Phroffil Problemau'n cael ei greu gyda chymorth gan yr Uned Atal Trais, Heddlu De Cymru, a BIP Caerdydd a'r Fro. Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd yn bwriadu defnyddio hon i lywio Cynllun Cyflenwi Lleol erbyn mis Rhagfyr 2023.<br>• Ar hyn o bryd mae Grŵp Datrys Problemau'n gweithio ar y prosiectau cymunedol canlynol: Stryd Clifton, Cae Anderson, Heol Ddwyreiniol y Bont-faen. Nod pob un o'r rhain yw mynd i'r afael â nifer o faterion cymhleth allweddol yn y gymuned.<br>• Grŵp Blaenoriaeth Anghenion Cymhleth a Ffyrdd o Fyw ar y Stryd: Ffocws ar: adnewyddu amcanion craidd, ailedrych ar y Protocol Pebyll i sicrhau ei fod yn addas at y diben, materion llety â chymorth, a sicrhau aliniad gyda darpariaeth cymorth camddefnyddio sylweddau bwrpasol.<br>• Atal- datblygu cais newydd ar gyfer 2023-2024<br>• Bwrdd Diogelu Rhanbarthol- cwblhau dysgu Gorchwyl a Gorffen cyflym o Adolygiad Ymarfer Plant Logan Mwangi, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Ben-y-bont ar Ogwr, i adolygu'r argymhellion ac ystyried unrhyw rai sy'n berthnasol yn lleol ac y gellir eu gweithredu ar unwaith. | |
| **8.** | **Unrhyw fater arall**<br><br>Cafodd y llythyr a dderbyniwyd gan Bwyllgor Craffu Adolygu a Pherfformiad yr Heddlu ei gyflwyno. Mae'r llythyr yn cynnwys yr argymhellion canlynol:<br>• Bod diwylliant a llwyddiannau pob BGC yn cael eu dathlu gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a bod arfer da glir yn cael ei rhannu ledled Cymru.<br>• Bod llwyddiannau cydweithredol y BGC yn cael eu dathlu'n fwy amlwg, yn enwedig lle mae her gyhoeddus sylweddol wedi'i goresgyn.<br>• Eich bod yn parhau i wella ansawdd y data a gedwir ar boblogaethau lleiafrifol i gefnogi cyrhaeddiad ymgynghori, yn egluro eich cynlluniau i liniaru ar gyfer cymunedau nad ydynt yn | |

| Rhif | Eitem Agenda | |
|---|---|---|
| | ymgysylltu, ac yn sicrhau bod gennym ddigon o ddata i gynllunio ymlaen llaw yn effeithiol.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br>• Cydlynu'r ymateb i lythyr y Pwyllgor Craffu Adolygu Polisi a Pherfformiad.<br><br>**Cyfarfod Nesaf y BGC:**<br>• 15 Chwefror 2023 | Ysgrifenyddiaeth y BGC |